

Bob Owen Croesor yn dryllio'r delwau

Sion Wynn o Wydir - Yr Yswain Llofruddiog

Llofruddiodd y tad a cheisiodd fargeinio â'r mab i dystio mai Thomas Prys a'i lladdodd.

Mewn dogfen Llys y Seren yn Swyddfa'r Record, Llundain a deitlwyd James 1 311/33 ceir stori fawr a chythryblus am gnafeiddra Sion Wynn o Wydir. Dengys yr hanes a adroddir yn eglur nad oedd y straeon a barhai amdano hyd yn ddiweddar yn Nyffryn Conwy yn rhai anwireddus. Wedi astudio castiau a chyfrwystru Sion Wynn ni ellir amau cywirdeb y cyhuddiadau difrifol a ddygwyd yn ei erbyn yn ystod teyrnasiad Iago'r Cyntaf. Ac nid yw yr achwynion hyn yn ddim ond degwm o hanes gweithredoedd anaf a gwalch llwynogaidd o Wydir. Nid trwy degwch a chyfiawnder y sylfaenwyd hen stad fawr Gwydir ond trwy driciau cythreulig a thrwy falais coblynaidd. Dichellion a phydredd Sion Wynn a'i tynnodd i'w grafangau. Drwy arferion hollol ddiogwyddor y sicrhodd y cnewyllyn a daeth y teitlau yn eiddo iddo trwy wyrni, camgyfraith a gorthrwm.

Thomas Prys o Blas Iolyn, yr hen yswain diddorol a oedd Ustus Heddwch yn nhair sir Caernarfon, Meirionnydd a Dinbych, sydd yn cyuddo Sion Wynn y tro hwn ac ni synnai Thomas Prys i bobl fynd yn dlodion wrth geisio achwyn am gastiau dieflig a llechwraidd y gŵr o Wydir. Cyhuddid Sion Wynn o garcharu llaweroedd o bobl ddiiniwed trwy annhegwch, grym a gorthrwm yn ystod chwe mlynedd ac aeth Thomas Prys mor bell a'i gyhuddo o amddiffyn yr euog a glanhau drwg-weithredwyr a'u cadw rhag cosb.

Yng ngolwg Thomas Prys yr oedd yn warth ar y gyfraith i Sion Wynn fedru prynu tystiolaethau gau mewn achosion lle ceisid sicrhau cyfiawnder rhwng pleidiau a'i gilydd. Ymhellach, yr oedd wedi drygu wyth ugain neu ragor o bobl oedd â thiroedd a thyddynnod yn terfynu ar stad Gwydir er mwyn cadarnhau ei etifeddiaeth ei hun.

Crafangai Sion Wynn beunydd eiddo eraill iddo ei hun a'i ddysgynyddion gan ddifetha da a theuluoedd ei gymdogion. Yr oedd yn ddigon cyfrwys i gysylltuno rhyw ychydig i'r bobl hyn lle gwelai fantais yn hynny fel y gallai eu difetha yn llwyr pan ddeuai'r dydd. Felly y cynhyddodd ei gyfoeth i'r fath raddau fel y llwyddodd pan ddaeth yn Rhaglaw y sir i feddiannu a phrynu iddo ei hun y rhan fwyaf o'r tiroedd mewn saith blwyf a derfynai a'i stad. Yr oedd y tiroedd hyn yn werth £2,500 y flwyddyn mewn rhent bryd hynny; buasent yn werth £50,000 yn ein harian ni heddiw.

Gorthrymodd Sion Wynn un William Morris o Drefriw, bonheddw ag amryw dyddynnod a pharselau o dir yn mhlwyf Trefriw ganddo - a chanddo'r hawl i'r eiddo hwn am flynyddoedd lawer. Llwyddodd Sion Wynn i hawlio y cyfryw diroedd trwy greu cofnodion anghywir a wnai'r cyfan yn eiddo iddo ef ei hun a'i etifeddion tros byth, er bod William Morris am gael trosglwyddo'r breintiau i Thomas Prys yn wyneb rhwystradau Sion Wynn.

Ar amryw achlysuron, dan esgus ei fod yn galw yn gyfiawn ar filwyr i wasanaethu'r Brenin, gorfododd William Morris, er ei fod yn gloff o'i glun ac yn hollol anghymwys i'r fyddin, i fynd i ryfela i Iwerddon. Ac yn y diwedd fe'i cymerodd a'i osod yng ngharchar a'i gadw yno nes ei orfodi i brynu ei ryddid trwy drosglwyddo'n derfynol ei holl diroedd i Sion Wynn tros byth.

Mab y Pannwr

Tua'r wythfed dydd o Awst 1603, digwyddwyd ymosod ar ŵr o'r enw Edward ab Sion Bannwr o blwyf Yspty Ifan, gan bersonau anadnabyddus. Yr oedd William Morris a rhai eraill o gyfeillion Thomas Prys oddi amgylch pan wnaed yr ymosodiad a gwelsant beth a ddigwyddodd. Manteisiodd Sion Wynn ar hyn. Yn ei falais a'i gasineb gwelai gyfle i ddrygu a difetha Thomas Prys a William Morris.

Perswadiodd Sion Wynn feddyg o'r enw Lee a meddygon eraill i weini ar Edward ab Sion y Pannwr, er mwyn ei 'adfer'. Yr oedd i dalu naw punt am hyn, ond addawodd hefyd wobrau mawr i'r meddygon am fod yn esgeulus yn eu gwaith ac am ddefnyddio



Sion Wynn o Wydir.

cyffuriau a wnâi yn sicr na wellai mab y Pannwr o'i glwyfau.

Galwodd y meddygon ato i'w rhoi ar ben y ffordd sut i drafod y clwysfedig. Cytunodd y meddygon i ddilyn cyfarwyddiadau ysgeler Sion Wynn, ac o ganlyniad bu farw Edward ab Sion y Pannwr o glwysfau a fuasai'n gwella'n rhydd pe rhoddid cystle iddynt. Bum wythnos cyn ei farw edrychai fel gwr ar wella ond cyn y diwedd fe chwyddasat ei gorff yn enfawr, fel corff dyn a wenywnwyd.

Trefnodd Sion Wynn gomisiwn o'i ddewisiad ei hun a'i gyfeillion heb neb yn aelodau arno ond ei ffrindiau mwyaf mynwsol. Pwrpas y comisiwn oedd archwilio tystion er mwyn ceisio cael cwyn yn erbyn Thomas Prys a William Morris a'u cyfeillion ynghylch marwolaeth mab y Pannwr.

Gwyddai Sion Wynn y byddai Thomas Prys yn dod i'r ymchwiliad. Felly casglodd yntau ynghyd oddeutu dri chant o bobl ddrwg. Yr oedd y rheini i ddod yno gyda'i gilydd, wedi eu harfogi â mwsgedau, cleddyfau, llurigau a chyflenwad mawr o arfau ymosod. Yr oedd diod feddwol hefyd i'w ddwyn yno fel y gellid yn hwylus eu hysio i gythrwfl.

Y Llofruddion

Yn Yspty Ifan y cynhaliwyd y Comisiwn, ar y dydd olaf o Fedi 1603 neu 1604. Arweiniodd Sion Wynn ei fyddin trwy ardal

Yspty a'r cylch gan orchymyn i ddau gant ohonynt lechu yn snec oddeutu chwarter milltir o'r lle yr eisteddai'r Comisiynwyr. Yr oeddynt i ymguddio mewn tai a choed a mannau cyfleus ac addas. Yr oedd y gweddill o'r gwyr arfog i lynu wrth gynffon Sion Wynn a'r Comisiwn.

Cynullodd Sion Wynn y tystion i fynegi'r tystiolaethau y mynnai ef iddynt eu tystiolaethu. Er mwyn bod yn berffaith siŵr o'r canlyniadau achosodd i un, Cadwaladr Wynn, yswain a pherthynas agos iddo, fynnu cael gan y rheithwyr y ddeddfryd a fynnai ef. Gan fod pob un o'r rheithwyr yn gyfeillion ac yn ddilynwyr i Sion Wynn a chan fod arnynt cyn gymaint o'i ofn, ni feiddient ei groesi.

Rhoddwyr ar ddeall i Thomas Prys i Sion Wynn gasglu tyfa fawr o wyr arfog i'w glwysfau ac i'w ladd ef a William Morris a'i gyfeillion, a gwyddai hefyd fod Sion Wynn a'i Gomisiwn am eu cyhuddo o fod yn euog o ladd Edward ab Sion y Pannwr. Ac felly ni feiddiodd yntau fynd ar gyfyl y Comisiwn.

Gwnaeth Cadwaladr Wynn ymdrech arbennig i fynd yn flaenor y rheithwyr fel y gallai wneud y cyhuddiadau yn y modd y dymunai Sion Wynn iddo eu gwneud! Ond, fel Ustus Heddwch, gwrthododd Cadwaladr Wynn a chymryd i'r ddalfa y bobl a deimlid oedd yn fwyaf euog o'r llofruddiaeth gan drosglwyddo ei warantau i'r Cwnstabiaild i wneud y gwaith, ond gan eu rhybuddio ar yr un pryd i osgoi ei gwmni ef.

A mynegodd Sion Wynn yn agored a chllir na wnai ef erlyn ymhellach na Thomas Prys na William Morris os rhoddent i'w fyny'r hawl i'r tiroedd a brynodd gan William Morris. Ychwanegodd y ceisiai ddwyn bywydau'r ddau oddi arnynt os gwrthodent.

Ail Gynnig

Felly, ni ellir dweud i'r Comisiwn cyntaf lwyddo gan na ddaeth y rhai a gyhuddid o'i flaen ac oherwydd cynllwynion Cadwaladr Wynn a wrthododd a'u cymryd i'r ddalfa. Felly, ar Awst 25, yn 1603 neu 1604, penodwyd yr ail Gomisiwn i gyfarfod yn Llanrwst. Yr un oedd ei bwrpas a'r un oedd ei amcan - sef defnyddio moddion anuniongyrchol i ddwyn cyhuddiadau yn erbyn Thomas Prys, ynghyd a'i gyhuddo o ladd Edward ab Sion y Pannwr.

I yrru'r maen i'r wal, rhoddodd Sion Wynn un Ellis ap Thomas Vychan ar waith. Gweithredydd (broker) oedd yr Ellis hwn ac un o ddilynwyr Sion Wynn a oedd bob amser yn barod i gyflawni bargeinion llygredig ac a weithredai'n ddi-ffaith ac anynol yn gyson feunyddiol. Am ei weithredodd talai Sion Wynn ganpunt y flwyddyn iddo (sef £1,500 neu ragor yn arian heddiw). Hefyd yr oedd Thomas Bannwr (mab i'r Edward a laddwyd) i'w ddwyn i'r cynllwyn, ac i'w berswadio i fynd ar ei lw mai Thomas Prys a laddodd ei dad. Os mynegai Thomas Bannwr hyn yn y llys, yr oedd pedair punt yn y flwyddyn i'w gynnig iddo.

Onid gwrthododd Thomas Bannwr a rhoi gau dystiolaeth am na oddefai ei gydwylbod iddo wneud gweithred o'r fath. Ac yr oedd ei dad hefyd, cyn marw o'i glwysfau wedi gwrthod mynegi y fath beth er i Sion Wynn a'i gynghreiriaid daer erfyn arno i wneud hynny.

Panelodd Sion Wynn y rheithwyr mewn dull hollol anghyfreithlon heb warant o fath